# Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mawrth, 4 Mawrth 2003

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

**2.44pm**
**Datganiad: Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor: Cynrychiolaeth ym Mrwsel**

**Datganiad: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar Ynni Adnewyddadwy -** ***Gohiriwyd tan 05.03.03***

**3.07pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
**Roedd mwy na 10 Aelod yn gwrthwynebu'r datganiad busnes**
**Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21 gofynnodd mwy na 3 Aelod am gael canu'r gloch**

Cynhaliwyd pleidlais**:**
O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 19; Cyfanswm 48
Cytunwyd ar y Datganiad Busnes

**3.25pm**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.5**
***NDM1364*** **- Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:**
1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Chwefror 2003, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft **Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach (Cymru) 2003**; ac

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach (Cymru) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2003.

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12

Tachwedd 2002, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y **gorchymyn drafft Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003**; ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002.

3.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd i'r Aelodau ar 25 Chwefror 2003, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft **Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11)(Cymru) 2003**; ac

b) Yn cymeradwyo bod Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11)(Cymru) 2003 yn cael ei gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.26pm**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 23 The Health Protection Agency (Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd) (Establishment) Order 2003**
*NDM1369* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10
Yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft Health Protection Agency (Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd) (Establishment) Order 2003, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac yr anfonwyd e-bost ohono at yr Aelodau ar 25 Chwefror 2003

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 37; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.30pm**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 23 The Health Protection Agency (Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd) Regulations 2003**
*NDM1368* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10
Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft Health Protection Agency (Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd) Regulations 2003, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac yr anfonwyd e-bost ohonynt at yr Aelodau ar 25 Chwefror 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 36
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.31pm**
**Adroddiad Grant Arbennig Rhif 21: Diogelwch Ffyrdd Lleol**
*NDM1365* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol Cymru Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 21) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.59pm**
**Cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Diwygio Rheoliadol: Addysg Ymchwil Betys Melys**
*NDM1366* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Regulatory Reform (Sugar Beet Research & Education) Order 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno yn y Cynulliad ar 24 Chwefror 2003. Mae rhoi'r Gorchymyn ar waith yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 37; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.00pm**
**Dadl am Strategaeth Pysgod a Physgodfeydd Cymru**
*NDM1367* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu:
1. y camau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer paratoi fframwaith strategol i ddatblygu'r sectorau pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd hamdden yng Nghymru; a

2. y bwriad i baratoi, erbyn diwedd 2003, Strategaeth Pysgodfeydd ar gyfer Cymru gyfan.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu "yn croesawu" yn y llinell gyntaf.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu "yn nodi" at ddechrau pwynt 1.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu "yn croesawu" at ddechrau pwynt 2.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Gosod "mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig" ym mhwynt 2, ar ôl "paratoi".

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 38
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 39
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 12; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 40
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 12; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 40
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Y cynnig, heb ei wella**
O Blaid 40; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.34pm**
**Dadl am hynt y gwaith o weithredu'r Strategaeth Ddiwylliant - Cymru Greadigol**
*NDM1322* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn croesawu'r camau a gymerwyd y llynedd o ran gweithredu strategaeth ddiwylliant Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y nodir yn *Creative Future: Cymru Greadigol*, ac mae'n edrych ymlaen at gyrraedd targedau newydd yn y flwyddyn sydd i ddod.
*Gellir gweld Creative Future: Cymru Greadigol ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiadau hyn:*
http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/creative/creative_home-w.htm

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ‘er budd Cymru gyfan' ar ôl 'targedau newydd'

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 38
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 6; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 40
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig**
O Blaid 40; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Derbyniwyd y cynnig**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.27pm

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 5 Mawrth 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 26 Chwefror 2003**
Asiantaeth Safonau Bwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2001/02 -LD1945